

Monmouthshire Select Committee Minutes

Meeting of Pwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc held at County Hall, Usk - Remote Attendance on Dydd Iau, 14eg Hydref, 2021 at 10.00 am

Councillors Present

County Councillor T.Thomas (Chairman)
County Councillor (Vice Chairman)

County Councillors: L.Brown, C.Edwards,
M.Groucutt, D. Jones, M.Lane, M. Powell and
J.Watkins

Officers in Attendance

Will Mclean, Prif Swyddog Plant a Phobl Ifanc
Sharon Randall-Smith, Pennaeth Cyflawniad a
Chyrhaeddiad
Hazel Ilett, Rheolwyr Craffu
Robert McGowan, Swyddog Polisi a Chraffu

Also in attendance County Councillors:

APOLOGIES: Councillors

1. Datganiadau o Fuddiant

Datganodd Tudor Thomas a David Hughes-Jones fuddiant nad yw'n rhagfarnol fel llywodraethwyr Ysgol Gymraeg Y Fenni, a datganodd Maureen Powell fuddiant nad yw'n rhagfarnol fel llywodraethwr yn y Brenin Harri VIII.

2. Fforwm Aqored i'r Cyhoedd.

Ni dderbyniwyd unrhyw gyflwyniadau cyhoeddus.

3. Diweddariad Dychwelyd i'r Ysgol

Rhoddodd Will McLean ddiweddariad llafar ac atebodd gwestiynau'r aelodau.

Herio:

Mae'r Uwch Dîm Rheoli yn Ysgol Brenin Harri VIII wedi derbyn negeseuon annymunol a bygythiol oddi wrth bobl gwrth-frechlyn – a oes unrhyw sicrwydd y gellir adnabod y bobl hyn, ac oes unrhyw gamau y gellir eu cymryd?

Bydd pob un o'n hysgolion uwchradd wedi derbyn negeseuon o'r math hwn – efallai hyd yn oed yr un negeseuon, wedi'u copïo a'u phastio. Rydym wedi gweithio'n dda iawn gyda'n cydweithwyr yn Aneurin Bevan ac rydym yn ddiolchgar am eu gwaith. Mae Mererid Bowley, un o'r ymgynghorwyr iechyd cyhoeddus, wedi cyfarfod â'r penaethiaid uwchradd i drafod y broses. Mae'n gadarnhaol bod y brechiadau wedi'u cymryd yn y canolfannau brechu torfol, yn hytrach nag ar lefel ysgol. Rydym yn gweithio gyda chydweithwyr yn yr adran gyfreithiol ynghylch gohebiaeth a dderbyniwyd; cafwyd achosion eraill yn Sir Fynwy lle'r ydym wedi uwchgyfeirio hynny i asiantaethau eraill. Ni ddylai penaethiaid byth orfod derbyn y math hwn o ohebiaeth, ac yr ydym yn eu cefnogi yn eu hymatebion.

Ni all yr athrawon na allant gymryd rhan, oherwydd Covid, fod yn rhan o ddatblygiad y cwricwlwm newydd. A yw hyn yn fygythiad i'w gyflwyno'n effeithiol?

Mae her y cwricwlwm yn sylweddol. Dim ond dau dymor a hanner yr ydym i fwrdd o'i weithredu. Os oes baich sylweddol ar arweinwyr i ymwneud â rheoli materion gweithredol, gan gynnwys Covid, yna bydd yn wir yn dileu rhywfaint o'u gallu i ymgysylltu'n llawn â datblygu'r cwricwlwm. Fodd bynnag, maent wedi cael cyfnod estynedig o amser i'w paratoi. Ond, ie, mae'r gallu i ymgysylltu ar hyn o bryd yn bryder sylweddol. Byddwn yn trafod gweithredu'r cwricwlwm gyda'n cydweithwyr yn Estyn yn ein cyfarfod yfory.

O ran presenoldeb yn Ysgol Brenin Henry, mae'r arweinyddiaeth yn pryderu nad yw'r plant mwyaf agored i niwed bellach yn mynychu mewn niferoedd nodedig. A allwn ddychwelyd at y model hŷn o rywun yn curo ar ddrysau?

Mae Richard Austin wedi gwneud llawer iawn o waith, yn genedlaethol ac yn lleol, o ran sut yr ydym yn cefnogi ein hysgolion o ran deall safbwynt Llywodraeth Cymru. Eu safbwynt hwy yw nad ydynt am ddod yn ôl â rhai o'r ymyriadau mwy ariannol sy'n ymwneud â phresenoldeb. Rydym yn defnyddio Swyddogion Lles Addysg i sicrhau ein bod yn ymgysylltu â'r bobl ifanc hynny i'w cael yn ôl i'r ysgol yn enwedig gan mai nhw'n aml yw'r dysgwyr mwyaf agored i niwed. Yn Sir Fynwy, mae ein presenoldeb fel arfer ar gyfradd yng nghanol y 90%; mae'r ffigur yn Ysgol Brenin Harri yn wir yn cynrychioli gostyngiad sylweddol, yn ddiau oherwydd Covid i raddau helaeth. Ond mae angen i ni sicrhau bod y plant hynny'n dychwelyd i'r ysgol. Mae rhai plant â phryder sylweddol sy'n cael ei achosi gan y pandemig, felly mae angen ystyried dulliau gwahanol ar gyfer gwahanol amgylchiadau.

A fyddai'n fwy synhwyrol i Lywodraeth Cymru ohirio'r cwricwlwm newydd, rhoi mwy o amser i drefnu ar ôl Covid a rhoi cyfle i'r athrawon ei ystyried yn iawn?

Pan etholwyd y gweinidog Addysg newydd, Jeremy Miles, cynhaliodd adolygiad o hyn: y newid a wnaeth oedd y gallai ysgolion uwchradd ddewis oedi tan 2023, ac yna gweithredu ar gyfer Blwyddyn 7 ac 8 bryd hynny. Nawr, nid wyf yn credu y bydd oedi'n cael ei ystyried. Yr her i ni, fel awdurdod lleol, yw y byddwn yn gweld amrywiad sylweddol yn y cyflenwad ar draws ein hysgolion. bydd hynny, yn gysylltiedig â newidiadau sylweddol i'r fframwaith atebolrwydd, yn golygu y bydd y ffordd yr ydym yn rhoi cyfrif am weithgareddau ein hysgolion yn her sylweddol yn y dyfodol, ond rydym yn gweithio ar hynny gyda chydweithwyr ledled y sir.

Crynodeb y Cadeirydd:

Mae lefel yr haint Covid yn parhau i fod yn bryder. Bydd absenoldebau ym Mlwyddyn 10 ac 11 yn cael effaith ar ymgeiswyr arholiadau; bydd mwy o hyblygrwydd gan fyrddau arholi yn cael ei ffrwyno'n y flwyddyn nesaf. Mae lefel presenoldeb yn bryder yn gyffredinol, yn enwedig yn achos dysgwyr mwy agored i niwed, lle gall ysgol fod y rhan fwyaf strwythuredig o'u bywydau. Mae pwysau ar arweinwyr yn peri pryder hefyd, yn enwedig gyda phwysau'r cwricwlwm newydd. Diolchwn i'r holl arweinwyr a staff mewn ysgolion am eu hymdrechion parhaus.

Dymunai'r Cynghorydd Edwards nodi ei edmygedd o'r modd y mae ysgol gyfun Cas-gwent wedi gwella ac ymdrin â heriau Covid. Mynegodd y Cynghorydd Groucott yr un teimladau tuag at y Brenin Harri VIII.

4. Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg

Cyflwynodd Sharon Randall-Smith yr adroddiad ac atebodd gwestiynau'r aelodau.

Herio:

A allem gael mwy o fanylion am sut mae darpariaeth trochi hwyr yn gweithio?

Mae'r ddarpariaeth drochi hwyr yr ydym wedi'i nodi yn y CSGA wedi dechrau fel cynllun peilot – mae'r awdurdod lleol wedi ariannu hyn fel y gallwn ddatblygu'r model cywir i ni. Mae trochi Cymraeg yn edrych yn wahanol ym mhob awdurdod yn dibynnu ar eu man cychwyn, eu natur wledig, agosrwydd ac ati. Rydym wedi gwneud ymchwil i wahanol fodelau gydag Ysgol Y Ffin: maent wedi ymweld ag ysgolion eraill sy'n cynnig darpariaeth drochi Cymraeg, wedi cael cyswllt â chydweithwyr ledled Cymru, wedi gweithio gyda Llywodraeth Cymru, ac wedi dechrau datblygu ein model ein hunain. Ar hyn o bryd, mae gennym ddau ddisgybl yn derbyn cymorth Cymraeg dwys am gyfran o'r dydd, ac yna'n treulio amser yn eu dosbarthiadau eu hunain fel bod ganddynt fynediad llawn i'r cwricwlwm. Mae hyn yn Ysgol Y Ffin oherwydd bod hynny yn yr ardal lle gwyddom fod angen i ni dyfu'r cyfleoedd ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg cyn gynted â phosibl. Ond mae angen i ni edrych ar hyn yn ehangach ar draws yr awdurdod, gan ystyried ein dyhead i gael 120 fesul carfan – bydd angen i ni edrych ar y datblygiad hwn pan fyddwn yn edrych ar y drydedd ysgol yn ardal Trefynwy. Bydd y ddarpariaeth drochi bresennol yn edrych ar sut y gallwn gynyddu dros amser. Mae Llywodraeth Cymru newydd gyhoeddi y gallwn wneud cais fel awdurdod lleol am grant trochi Hwyrddfyddiaid i'r Gymraeg, o hyd at £100 mil – byddwn yn cyflwyno ein ffurflen gais cyn y dyddiad cau ar ddiwedd mis Mawrth, a byddwn yn gwybod sut y byddwn yn ei defnyddio i gyflymu'r pethau yr ydym eisoes wedi'u rhoi ar waith, yn enwedig hyfforddiant i'n hysgolion cyfrwng Cymraeg wrth gyflwyno technegau trochi.

Beth yw ein darpariaeth a'n strategaeth ar gyfer mynd i'r afael â therapi lleferydd ac iaith drwy gyfrwng y Gymraeg?

Mae hon yn her ar draws y rhanbarth, yn gyffredinol. Mae gennym un aelod Cymraeg o'n tîm Anawsterau Dysgu Penodol, sy'n fuddiol iawn i ni a'n dysgwyr cyfrwng Cymraeg. Bydd yn rhaid i ni weithio gyda Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan i sicrhau mwy o siaradwyr Cymraeg yn y gwasanaethau sy'n cefnogi ein pobl ifanc gyda lleferydd ac iaith a chyfathrebu. Mae Jacquelyn Elias a'i thîm yn gweithio'n agos gyda chydweithwyr rhanbarthol i symud hynny ymlaen cyn gynted â phosibl. Mae'n anodd iawn dod o hyd i rywun sy'n gymwys i ddarparu'r ddarpariaeth a hefyd yn siarad Cymraeg, felly'r uchelgais i wneud hynny o fewn oes y Cynllun. Fodd bynnag, nid oes neb yn tanbrizio'r her honno.

O ran disgyblion sy'n symud o'r cynradd i'r uwchradd dros y blynyddoedd diwethaf mae llawer o ddisgyblion wedi cael eu tynnu'n ôl o addysg cyfrwng Cymraeg oherwydd yr amgylchiadau yn Ysgol Gyfun Gwynllyw. Sut y darperir ar gyfer y disgyblion hyn? Beth mae'r cyngor sir yn ei wneud i helpu'r nifer sylweddol hon o ddisgyblion, ac osgoi draenio disgyblion o addysg gyfrwng Cymru yn y dyfodol?

Dewis rhieni ydyw, fodd bynnag, mae pryder bod y niferoedd sy'n trosglwyddo yn is nag y buont, yn hanesyddol. Rydym yn rhan o fwrdd partneriaeth newydd gyda Thorfaen er mwyn i ni edrych ar y materion a'r heriau sy'n codi yn ein disgyblion sy'n trosglwyddo, ac edrych ar ansawdd addysg, a sicrhau y gallwn gynyddu'r trosglwyddiad i Ysgol Gyfun Gwynllyw. Mae Ysgol Is Coed yng Nghasnewydd wedi sefydlu eu darpariaeth drochi i alluogi ac annog mwy o fyfyrwyr i symud o'r cynradd i'r uwchradd. Dros y cyfnod, gobeithiwn gynyddu'r gyfradd drosglwyddo. O fewn y Cynllun, mae nodyn hefyd ein bod mewn trafodaethau gydag

awdurdodau lleol eraill i allu edrych ar ddarpariaeth uwchradd arall a allai alluogi rhai o'n dysgwyr i deithio mewn llai o amser i ddarpariaeth uwchradd. Ar hyn o bryd gall disgyblion o Drefynwy ymdopi â'r daith i'r Fenni am y cyfnod cynradd, ond mae'n anodd ychwanegu'r amser teithio i Ysgol Gyfun Gwynllyw ar ben hynny – ceir trafodaethau ynghylch hynny o fewn Rhaglen Band C Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif.

O ran Deilliant 1 a mwy o blant 3 oed yn derbyn addysg drwy'r ddarpariaeth feithrin cyfrwng Cymraeg, o gofio bod nifer o feithrinfeydd yn breifat, sut fydddech chi'n rhagweld y bydd hyn yn digwydd? A roddwyd unrhyw ystyriaeth i ddarpariaeth feithrin dwy iaith?

Mae Deilliant 1 yn edrych ar gynyddu nifer y plant sydd mewn darpariaeth addysg gynnar. Rydym yn gweithio'n agos iawn gyda Mudiad Meithrin, sefydliad sy'n ein helpu i sefydlu cyfleusterau gofal plant cyfrwng Cymraeg. Mae tri yn y sir wedi'u cysylltu'n agos â'r ysgolion; o fewn oes y CSGA, ein nod yw cynyddu hyn i bump. Bydd hyn yn darparu hyd at 63 o leoedd, ychydig dros hanner yr hyn y byddem yn chwilio amdano erbyn diwedd y cyfnod o ddeng mlynedd. Byddant yn ein helpu i ganfod a recriwtio ymarferwyr cyfrwng Cymraeg i weithio yn y lleoliadau hynny. Mae'n her ac yn cysylltu â Deilliant 7 ynglŷn â'r gweithlu. Yna bydd gan ein plant yr opsiwn o drosglwyddo i feithrinfeydd cyfrwng Cymraeg – mae un eisoes yn Ysgol Y Fenni, bydd un yn Ysgol Y Ffin, a byddwn yn edrych i'r ysgol newydd yn Nhrefynwy. Mae gan ein ymarferwyr eisoes fynediad at gyfleoedd hyfforddi sylweddol i ddatblygu'r Gymraeg yn ein hysgolion cyfrwng Saesneg, sydd hefyd ar gael i ymarferwyr iaith Gymraeg. Rydym yn ceisio meithrin sgiliau Cymraeg ar draws ein carfan gyfan o ddysgwyr.

Sut mae pobl sydd â sgiliau iaith gwahanol yn cael eu heffeithio? h.y. trochi o aelwyd lle siaredir Saesneg drwy'r amser yn erbyn un lle siaredir Cymraeg drwy'r amser?

Mae'r rhan fwyaf o'n dysgwyr sy'n cael mynediad i addysg cyfrwng Cymraeg yn dod o gartrefi cyfrwng Saesneg. Rydym wedi canfod bod rhieni ar ryw adeg yn amharod i gymryd rhan mewn addysg cyfrwng Cymraeg i'w plant os nad ydynt yn siarad Cymraeg eu hunain. Felly, rydym yn ceisio datblygu, drwy ein trochi, sut y gallwn gefnogi rhieni hefyd. Gallwn edrych ar ddulliau llwyddiannus a ddefnyddir gan awdurdodau lleol eraill. Yn ystod y pandemig, mae ein hysgolion cyfrwng Cymraeg wedi bod yn rhagweithiol iawn wrth ddarparu llawer o gymorth ychwanegol i rieni i gefnogi dysgu eu plant. Gallwn hefyd edrych ychydig ymhellach ar sut rydym yn cynnig sesiynau cefnogol i rieni eu hunain.

Mae'r cynllun yn sôn am y niferoedd anghymesur sy'n dewis y tu allan i ddarpariaeth y sir – a oes unrhyw astudiaeth wedi'i gwneud ynghylch pam y dewisir Wyedean?

Nid ydym bob amser yn gwybod y rhesymau pan fydd myfyrwyr a rhieni yn gwneud eu dewis wrth drosglwyddo ym Mlwyddyn 7. Weithiau, oherwydd bod eu brodyr a'u chwiorydd eisoes mewn ysgol, mae teuluoedd wedi symud i Sir Fynwy a bod ganddynt gysylltiad presennol â'r ysgol, ac efallai y bydd dewis yn seiliedig ar gynnyg y cwricwlwm, sy'n wahanol iawn yng Nghymru. Weithiau mae'r penderfyniad yn seiliedig ar sut mae'r rhieni'n teimlo am y plentyn fel dysgwr. Mae'n batrwm tebyg mewn awdurdodau eraill sydd mewn sefyllfa debyg. Mae agosrwydd Wyedean at Gas-gwent yn ffactor. Mae darpariaeth bob amser ar gyfer teuluoedd Cymraeg a Saesneg eu hiaith, felly mae'r dewis yno i'r ddau. Nid oes gan rieni sydd am gael darpariaeth Gymraeg yr un faint o ddewis â'r rhai sy'n ceisio darpariaeth Saesneg. Pwrpas y CSGA yw cynyddu'r cyfleoedd i rieni gymryd rhan yn hynny a hyrwyddo nifer o fuddion dwyieithrwydd.

Byddai arolwg ar gyfer Cas-gwent/Wyedean yn ddefnyddiol.

Byddai'n rhesymol i ni edrych ar y rhesymau dros ddewisiadau trosglwyddo, ond ni allwn bob amser warantu bod yr hyn a gawn yn ôl yn ymateb cywir neu lawn. Wrth symud ymlaen, ni fydd y canlyniadau'n cael eu cyhoeddi fel na fydd hynny'n cael ei ddefnyddio fel mesur atebolrwydd o ran dewisiadau.

Mae'n siomedig nad yw'r ysgol newydd yn Nhrefynwy yn mynd i ddod i'r adwy nawr tan fis Medi 2023, yn enwedig gan ei bod yn daith hir i ddisgyblion yr ardal honno deithio i Ysgol Y Ffin ac Ysgol Gymraeg Y Fenni.

Mae'r awdurdod lleol wedi treulio cryn dipyn o amser yn ceisio dod o hyd i ateb addas ar gyfer Trefynwy, gydag ardaloedd y tu mewn a'r tu allan i'r dref wedi cael eu hystyried. Yn ddiweddar, rydym wedi cadarnhau nad yw'r holl dir posibl o faint addas ar gael i ni, neu mae o fewn ardaloedd gorlifdir. Felly, rhaid i ni edrych o fewn ein darpariaeth bresennol yn awr i weld lle y gallwn gartrefu egin-ysgol, a fydd yn cynnwys ymgynghori ffurfiol, a chyfnod penodol o amser. Ond os gall y broses rywsut symud yn gyflymach nag a ddisgwyliwn, byddwn yn gwneud hynny.

Crynodeb y Cadeirydd:

Diolch am yr adroddiad cynhwysfawr a'r diweddariad, yn enwedig mewn perthynas â thechnegau trochi hwyr. Rydym wedi ystyried meysydd pwysig eraill megis ADY a throsglwyddo o'r cynradd i'r uwchradd a materion gyda Gwynllyw, y mae angen i ni gadw llygad arnynt. Mae angen i ni bwysu ar ddarpariaeth uwchradd gyda threfniant teiran rhwng Powys, Blaenau Gwent a Sir Fynwy, sy'n bwysig iawn o ran amser teithio. Gwnaethom hefyd ystyried mater darpariaeth y blynyddoedd cynnar. Mae'r her o ran y gweithlu yn sylweddol, ac yn bwysig iawn, yn ogystal â'r gefnogaeth i rieni.

5. Blaenraglen Waith y Pwyllgor Dethol Plant a Phobl Ifanc

Mae'n annhebygol y bydd strategaeth prydau ysgol am ddim yn barod erbyn y cyfarfod nesaf, a dylai ADY ddod o'i flaen, felly mae angen ei ychwanegu. Gofynnodd yr Aelodau am i drafodaeth ar ysgol Cas-gwent gael ei hychwanegu at y cyfarfod nesaf. Gofynnodd y Cynghorydd Brown am y wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd yr adeilad ysgol newydd yno, a chynigiodd y Cynghorydd Edwards drafod yr hyn y gellid ei roi ar waith wrth aros i bopeth symud ymlaen gyda Rhaglen Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif. Rhybuddiodd y Cadeirydd na ellir dweud llawer iawn ar hyn o bryd ynglŷn â Chas-gwent.

6. Cynllun Gwaith y Cabinet a'r Cyngor

7. Cadarnhau cofnodion y cyfarfod blaenorol

Cafodd y cofnodion eu cadarnhau a'u llofnodi fel cofnod cywir, eu cynnig gan y Cynghorydd Groucott, a'u heilio gan y Cynghorydd Powell.

8. Cadarnhau dyddiad ac amser y cyfarfod nesaf

Dydd Iau 2^{il} Rhagfyr 10:00am.

The meeting ended at **11.26 am**